Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrh Sajid Javid AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Stryd Marsham
Llundain
SW1P 4DF

18 Ionawr 2019

**YNGHYLCH: Archwiliad Cyfanrwydd Data Troseddu Heddlu Dyfed-Powys 2018**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Rwyf yn falch fod ymdrech cydunol Heddlu Dyfed-Powys i wella arferion gwaith wedi arwain at fwy o droseddau'n cael eu cofnodi'n gywir. Rwyf yn ymwybodol bod y gwelliannau sylweddol wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i newidiadau o ran trefniadau llywodraethu, trosglwyddo hyfforddiant i swyddogion rheng flaen, buddsoddiad pellach yn nhîm Cofrestrydd Troseddau'r Heddlu a chyflwyno Tîm Dyrannu Digwyddiadau a Throseddau.

Y mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau fod pob gweithred briodol ar waith i wella perfformiad yr Heddlu yn y maes hwn ymhellach, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r argymhellion o fewn yr adroddiad archwilio. Mae'r Prif Gwnstabl wedi nodi y bydd ei swyddogion yn rhoi sylw penodol i wella eu hymateb i Gam-drin Domestig dros y 12 mis nesaf. Mae ei uwch arweinwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd "edrych y tu hwnt i'r hyn sy'n amlwg" wrth fynychu digwyddiadau domestig, er mwyn adnabod breguster cudd ac yn sgil hynny darparu'r ymateb diogelu mwyaf priodol i ddioddefwyr.

Mae'r Heddlu wedi datblygu cynllun archwilio eglur sy'n cynnwys goruchwylwyr, y Tîm Archwilio Troseddau a fy mhaneli archwilio allanol i er mwyn gwella lefel yr oruchwyliaeth a'r cyfleodd i gamgymeriadau gael eu cywiro ac i'r Heddlu ddysgu oddi wrthynt ar gam cynharach yn y broses. Mae Cofrestrydd Troseddau'r Heddlu'n parhau i

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

ddatblygu adnoddau ychwanegol i gefnogi'r rheng flaen wrth wneud penderfyniadau cofnodi troseddau priodol, ac mae'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i ehangu cwmpas cylch gwaith y Tîm Dyrannu Digwyddiadau a Throseddau er mwyn sicrhau gwelliannau pellach o ran cofnodi troseddau ar y pwynt cyswllt.

Rwyf yn fodlon fod y Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i barhau i ysgogi gwelliannau o ran cofnodi troseddau'n gywir. Byddaf yn parhau i gynnal goruchwyliaeth o'r maes pwysig hwn o ran perfformiad yr Heddlu drwy gyfraniad fy staff i gyfarfodydd llywodraethu allweddol yr Heddlu a thrwy fy nghyfarfodydd dal i gyfrif rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl.

Ceir copi o'r ymateb hwn ar fy ngwefan.

Yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Police & Crime Commissioner**

Cc: AEM Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

**web** www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner
**gwefan** www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner